

9)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader --Ebrill 18ed 2016—18/04/16 8pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present: Val Davies,Glyn Jones,Raymond Lewis,Haulwen Lewis,Eirian Jones,
Keith Lewis,Annette Davies,Yvonne Griffiths,C.Sir Linda Evans

Clerc:Anita Evans,Ymddiheuriadau:Marc Jones,Melfyn Evans,Sian Thomas.Absennol:Lynn Evans.Cyfieithydd Hefin Jones,Heddlu:PCSO Alice James.Cyhoedd--1

1)Croesawodd Val Davies(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod.All welcomed by Val Davies(chairman).

2)Neges yr Heddwes/Police information: mae dau gyrch cyffuriau llwyddiannus wedi bod ym Maescader yn ddiweddar.Mae pobl wedi bod yn tynnu sylw 'r Heddlu at y broblem o faw cŵn yn ein pentrefi,a braf clywed fod pŵer gan yr Heddlu i arestio perchnogion y cŵn.There have been 2 successful drug raids in Maescader.People have been reporting about dog mess in our villages,and thankfully the Police have powers to arrest dog owners.

3)Ymwelydd—dim sylwadau/no information given by the member of the public.

4)Datgan diddordeb—roedd Eirian Jones am ddweud fod ganddo ddiddordeb yng nghohebiaeth--showed a non prejudicial interest in page 8/no 1 --(neighbour to farm concerned)

5)Cofnodion mis Mai: cafwyd yn gywir/minutes found to be correct-prop.R.Lewis/sec.K.Lewis.

Materion yn codi:

a)negeseuon o'r Priffyrdd—yn dilyn cwynion am glustog cyflymder Cae'r Felin,tarmac sy ar yr ochre nawr yn lle rwber;mae'r Cyngor yn edrych ar y manhole sy'n sinco ar bwys Tabernacl;eisiau torri cloddiau ar ben hewl Glantweli Fach—y perchen sy fod gwneud;Penrhiw Alltwalis—Cyngor wedi dod mas i sicrhau fod y safle yn ddiogel ar Llun y Pasg,ar ôl adroddiad fod coeden yn beryglus;Eithinog Pontweli—problem gratin yn sinco,ond y broblem yw ei fod ar ben draeniau'r ty.Following complaints regarding the speed cushion near Ysgol Cae'r Felin,the Council say it is now a tarmac approach not rubber;hedge cutting required on the turning for Glantweli Fach must be carried out by the landowner;manhole near Tabernacl Chapel,Pencader and near Eithinog ,Pontweli are on their list;C.County C.came out to Penrhiw Alltwalis on Easter Mon.to ensure that overhanging tree branches were secured.

b)cctv-Pafiliwn—dydy un o'r camerau ddim yn gweithio/one of the cameras is not working.

c)Cornel Chwarae—eisiau gwella'r ffens yn y cornel pella/rear fence needs repairing.

ch)Capel Alltwalis—Emma Keller (C.S.Gar)-wedi rhoi Rhybudd 106 i'r perchen—mae ganddo 12 mis i wella'r safle/the owner of Alltwalis Chapel has been sent a Section 106-and has 12months to improve the site.

d)Biniau—ddim yn cael eu gwagio—Clerc wedi cysylltu â Mark Davies i ddweud am fin hewl y mynydd mas o New Inn,bin Alltwalis ar bwys y toiledau,un Mynwent Alltwalis.Mae hefyd wedi tynnu sylw'r adran am y tipio sy'n digwydd ar gyffordd hewl Llanpumsaint/Bancyffordd.Clerk has reported bins needing emptying—Alltwalis near the toilets and one inside Cemetery gate,one on the mountain road out of New Inn,and the seriousness of the fly tipping on the junction of Llanpumsaint/Bancyffordd roads—rubbish left underneath the “no fly tipping “sign.

10) 6) Ariannol/financial:

Cafwyd yr adroddiad yn gywir- K.Lewis (prop),R.Lewis (sec.)Biliau i'w talu:cyflogau(wages) £822.41;Dwr Cymru Mynwent Alltwalis/Cemetery-£16.64;Trywydd(Translation)£57.60;Pida(cyfleusterau/amenities)£600.00;HMRC-£186.60.

Derbyniadau(receipts)£719.87(ad daliad AON/repayment);Praecept--£17,666.66

Yn y Banc: 11/04/16--£21,582.16 cyfanswm/total --9/05/16---£38,285.44

7)Cynllunio/Planning: (gadawodd C.Sir L.Evans yr ystafell—left the room)

a)W/31674—ymweliad safle/notice of site visit 12/04/16—Gwastod Abbot,New Inn—change of use of land to machinery parking.

b)W/33618—certificate of lawfulness—installation of MOT bay at Valley Services,Llandysul—Sion Jones.

c)W/33537—newid defnydd tŷ i le gwely a brecwast/change of use of dwelling to b/b accommodation,and rear extension—Ty'r Ysgol/School Hse,Pencader for Pecs Ltd.

ch)W/33591---discharge of conditions on W/31099(construction traffic management,and trial run video)land at Wern Pencader for Seren Renewables.

d)W/33626—creu mynedfa i'r tŷ/vehicular access to property –Llwynderw,Pencader i Mr.Martin Day.

dd)W/33617---adeilad amaethyddol/agricultural building –land at Ty Newydd,Llan'el i Barry Hughes.

e)W/33649—datblygiad dai/housing development—reserved matters—land adjoining Nant y Gelli New Inn i Mr.Gary Davies.

Doedd dim gwrthwynebiad/no objections.

8)Gohebiaeth/Correspondence: C.S.Gar/C.County Council:

1)Llwybr Glanawmorisa—ail-leoli/proposed diversion of footpath at Glanawmor Isa Farm(dim gwrthwynebiad/no objection).

2)Hysbysiad Etholiad/Election –awareness campaign.

3)Poster yn hysbysebu fod gofal a chymorth yng Nghymru yn newid/advert promoting future changes to care and support in Wales.

Eraill/other:

4)Awdurdod Tân ac Achub-cynllun gwella blynyddol/Fire and Rescue—annual improvement plan.

5)Statkraft—cadarnhâd derbyn yr anfonebau,a thaliad olaf am waith y Cornel Chwarae/letter confirming final payment for work on the Play Corner,and requesting that the Council recognises support from the Community Benefit Fund.

6)Playdale—diolch am ein harcheb/thank us for our custom and assuring their continued support.

Tud/Page 11) 8)Gohebiaeth parhad/correspondence contd.

7)Ysgol Bro Myrddin—newid categori iaith/change in language category.

8)Un Llais Cymru—cofnodion a dyddiad pwyllgor ardal Ebrill 26ain ym Mhontyberem/date of O.Voice W.meeting.Bydd y Cyngor yn cael ei gynrychioli gan Keith Lewis/will represent this Council.

9)U.F.Arall/A.O.B.

a)Keith Lewis---cyflwr yr hewlydd yn wael/state of our roads is very poor.

b)Raymond Lewis---mae'r ffens ar y troad am Dolgran ar bont Cwmgwen yn rhydd/fence needs repairing.

c)Eirian Jones---palmant o flaen siop y sgwâr,Pencader mae darn yn rhydd;mae'r ceir o flaen y modurdy yn yr hen swyddfeydd y Cyngor wedi eu parcio dros y linell diogelwch/one of the kerbstones on the pavement outside the shop on Pencader square is loose;cars are protruding too far out on the road at the garage in the old Council offices.

ch)Linda Evans—siom yw dweud nad ydym wedi bod yn lwcus yn ein cais am lwybr o Bont Cwmgwen i Dremle unwaith eto/sadly we have failed in securing a pavement from Cwmgwen to Tremle in Pencader.

d)Clerc—safon walydd toiledau Alltwalis yn wael—nid yw'r Cyngor Sir wedi gwella dim/the walls in the Alltwalis Conveniences are in a bad state—C.Council have made no improvements.

10)Apeliadau/Appeals:

Penderfynwyd cyfrannu at y canlynol/the following donations will be made:

a)Eisteddfod Llanfihangel ar arth a'r Plwyf:	£100.00
b)Youth Opera Caerfyrddin:	25.00
c)McMillan Nurses	50.00
ch)Tenovus	50.00
d)Gofal mewn Galar(Cruse)	25.00
dd)C.FF.I Sir Gar/YFC Carms	100.00

Gorffennwyd am 9yh/meeting ended 9pm.